AGGCC
CSSIW

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

## Adroddiad Blynyddol

2006-2007



G/377/07-08
ISBN 978 0 7504 4343 5

Ionawr
CMK-22-11-025

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2008

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| PENNOD UN - PERFFORMIAD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDODAU LLEOL | 3 |
| PENNOD DAU - HYRWYDDO GWELLIANT | 17 |
| Gwasanaethau cymdeithasol i blant | 20 |
| Gwasanaethau cymdeithasol i oedolion | 25 |

# RHAGAIR

Ar 1 Ebrill 2007, cyfunwyd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a'u priod swyddogaethau a phwerau i ffurfio Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae'r Adroddiad Blynyddol AGGCC hwn ar gyfer 2006-07 yn cyfuno adroddiadau'r arolygiaethau ASGC ac AGCC blaenorol mewn dwy ddogfen ar wahân, ynghyd â throsolwg cynhwysfawr y Prif Arolygydd o'u swyddogaethau a'u canfyddiadau unigol.

Mae AGGCC yn darparu gwasanaeth rheoleiddio ac arolygu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Ein nod yw cefnogi'r broses o wella gofal, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru drwy godi safonau, gwella ansawdd gwasanaethau a hyrwyddo arfer gorau drwy waith rheoleiddio, arolygu a datblygu.

Mae'r arolygiaeth newydd yn gweithredu o'r un lleoliadau ledled Cymru ag yr oedd ei rhagflaenwyr.

# PENNOD UN

## PERFFORMIAD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDODAU LLEOL



## PERFFORMIAD CYFFREDINOL

**Gwelir gwelliant parhaus ym mherfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol - a phryderon parhaus.**

Mae canlyniadau adolygiadau a gwerthusiadau, trwy arolygon pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, a dangosyddion perfformiad yn cadarnhau'r tueddiad cyffredinol o welliant. Nid oes unrhyw amheuaeth bod gwaelodlin gyffredinol perfformiad wedi codi.

Dylid cydnabod y newyddion da o welliant yn llawn. Mae llawer o filoedd o bobl agored i niwed yn derbyn gwasanaethau sy'n amddiffyn eu lles ac yn cynnal eu hannibyniaeth, yn fwy dibynadwy nag o'r blaen. Mae'r gwasanaethau hyn yn lleddfu'r pwysau ar lawer o deuluoedd, gofalwyr a chymunedau ac yn gwella eu bywydau. Mae llawer o wasanaethau cyhoeddus eraill yn elwa ar gyfraniad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Y sail leol i'r gwelliant yw rhoi mwy o sylw gwleidyddol a chorfforaethol i wasanaethau cymdeithasol, buddsoddi mewn adnoddau, gwell systemau rheoli (yn dechnegol ac yn weithdrefnol), a datblygu'r gweithlu. Gwelwyd gwell gweithio mewn partneriaeth hefyd a mwy o gynnwys y defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr.

Y sail genedlaethol i'r gwelliant yw arweinyddiaeth wleidyddol, polisïau a mentrau buddsoddi penodol, gwell dulliau o fesur a monitro perfformiad, ac yn ddiweddar, drwy allu newydd i wella.

Ond ceir pryderon o hyd, a daw rhai newydd i'r amlwg, lle mae agweddau ar berfformiad wedi llusgo neu ddirywio, mewn rhai meysydd gwasanaeth a chynghorau penodol, neu mewn ymateb i bwysau cynyddol galw dros gyflenwad. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae diffyg ymagwedd gydlynol at wasanaethau cymdeithasol, diffyg cyfeiriad eglur ac atebolrwydd, diffyg arweinyddiaeth broffesiynol neu reoli ddigonol, neu ddiffyg systemau rheoli perfformiad effeithiol, wedi atal gwelliant.

## Pryderon mewn gwasanaethau plant

Mae pryderon yn parhau i ddod i'r amlwg, yn enwedig mewn gwasanaethau plant lle mae natur cyfrifoldebau'r cynghorau a'r materion cymhleth sy'n gysylltiedig ag ymdrin â phlant mewn angen yn golygu bod gwerth uchel ar lwyddiant a goblygiadau difrifol ynghlwm wrth fethiant.

Mae pob achos hyd yma o ddefnyddio'r protocol ar gyfer ymdrin â phryder difrifol mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi deillio o wasanaethau plant. Yn dilyn hepgor Blaenau Gwent a Chaerdydd o'r protocol, mae'n parhau i fod ar waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle y gwnaed cynnydd sylweddol. Fodd bynnag, wrth i'r flwyddyn ddod i ben, canfu arolygwyr, a oedd yn adolygu gwasanaethau plant Abertawe, bryder difrifol, gan arwain at ddefnyddio'r protocol o ganlyniad i hynny.

## Pryderon mewn gwasanaethau oedolion

Ceir problemau o'r fath mewn gwasanaethau oedolion hefyd. Heb unrhyw amheuaeth, daw mwy i'r amlwg yn y dyfodol yn sgil gwell gweithdrefnau amddiffyn oedolion a gwell systemau monitro perfformiad. Mae angen dulliau effeithiol o ganfod a mynd i'r afael â phroblemau er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae'r pryderon presennol ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol i oedolion wedi canolbwyntio ar fwy o oedi mewn trosglwyddo gofal o'r ysbyty mewn rhannau penodol o dde Cymru. Mae'r rhain yn adlewyrchu ystod o ffactorau ar draws systemau cyfan gwasanaethau iechyd a chymdeithasol - ffactorau mewn rhannau unigol o'r systemau a ffactorau o ran y ffordd y mae'r gwahanol rannau yn gweithio gyda'i gilydd. O ran gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, mae problemau sy'n ymwneud ag oedi mewn trosglwyddo gofal yn awgrymu problemau ehangach sy'n ymwneud ag ail-lunio patrymau a systemau gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n bodloni disgwyliadau newydd mewn amgylchedd sy'n fwyfwy cymhleth.

## Ymateb i her gwelliant

Rhaid i awdurdodau lleol gynnal gwelliant yn y ffordd y maent yn asesu anghenion unigolion ac yn rheoli eu gofal, neu yn gynyddol, galluogi unigolion i reoli eu gofal eu hunain. Rhaid iddynt wella eu dull o gydgrynhoi gwybodaeth o asesiadau unigol i asesiadau o batrymau o'r angen a'r galw am wasanaethau. Mae datblygu asesiad unedig a'i systemau technoleg gwybodaeth cysylltiedig yn hanfodol ar gyfer hyn. Rhaid iddynt weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a chyda'r sectorau preifat a gwirfoddol i gomisiynu a datblygu gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau i blant mewn angen a lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal, lleoliadau mewn cartrefi gofal a nyrsio i bobl hŷn, a gwasanaethau newydd a mwy hyblyg a chymorth technegol i alluogi pobl i fyw yn hirach ac yn fwy annibynnol yn y gymuned. Mae'r galw parhaus am well perfformiad a'r agenda heriol ar gyfer ail-lunio gwasanaethau yn codi cwestiynau anochel ynglŷn â gallu awdurdodau lleol i wneud popeth sy'n ofynnol ganddynt. Nid mater o faint yn unig yw hyn gan fod rhai o'r awdurdodau llai wedi dangos y gallant wneud cystal, os nad gwell, na rhai o'r cynghorau mwy. Mae'n fater o wneud y defnydd gorau o adnoddau prin ac arbenigedd, a chynyddu effeithiolrwydd sy'n awgrymu lleihau dyblygiad diangen. Mae awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd recriwtio gweithwyr ar gyfer rhai swyddi, gan gynnwys nifer o swyddi rheolwyr tîm ac uwch reolwyr allweddol. Mae angen sgiliau technegol newydd, nad ydynt ar gael yn helaeth, ar gyfer moderneiddio gwasanaeth. Mae angen consortia pwrcasu mwy pwerus ar economi'r farchnad gofal cymdeithasol. Bydd patrymau comisiynu sy'n newid yn y gwasanaeth iechyd yn codi cwestiynau newydd ynglŷn â threfniadau awdurdodau lleol.

Mae awdurdodau lleol, gydag anogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinyddiaeth a chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), yn gynyddol chwilio am ffyrdd o gydweithio i reoli eu gwasanaethau. Mae hyn yn berthnasol yn lleol, gyda'r bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill; yn rhanbarthol, gan gynnwys gydag awdurdodau eraill; mewn cymunedau o ddiddordeb, er enghraifft yn y consortia pwrcasu ar gyfer systemau rheoli gwybodaeth; a thrwy asiantaethau cyrff eraill. Mae cynllunio a datblygu gweithlu gofal cymdeithasol wedi darparu model llwyddiannus ar gyfer cydweithio'n lleol ac yn rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Mae'r datblygiad hwn yn doreithiog, yn gyflym ac i'w groesawu; ond hyd yn hyn nid yw'n bodloni'r holl ofynion gallu ac effeithlonrwydd sydd eu hangen i gynnal gwelliant ac ail-lunio gwasanaethau.

## Profiad defnyddwyr gwasanaeth

### ENGHRAIFFT O ACHOS

*Oherwydd bod ganddi anabledd corfforol yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl, treuliodd Ms B lawer o amser yn byw mewn ysbytai a gofal preswyl. Er iddi fwynhau bod yn annibynnol o'r blaen, cafodd ei derbyn i ofal sefydliadol o ganlyniad i anawsterau teuluol. Wrth iddi agosáu at oedran pan fyddai gofal preswyl i bobl hŷn ar gael iddi, roedd yn well ganddi barhau i weithio tuag at fyw yn y gymuned unwaith eto.*

*I ddechrau, cafodd y cyngor anhawster wrth ddod o hyd i lety oeddi wedi'i addasu'n briodol. Ar ôl dod o hyd i lety priodol, symudodd Ms B i mewn gyda chymorth ar gyfer ei hanghenion iechyd meddwl, gofal dydd, ymweliadau nyrsio a gweithiwr cymorth ddwywaith yr wythnos a chymorth ar gyfer ei hanghenion corfforol. Roedd Ms B yn cael dewis ei dodrefn a'i haddurniadau ei hun ar gyfer ei hystafelloedd. Wrth iddi ddod yn fwy cyfarwydd â'r ardal, mae hi wedi dechrau mynd i'r gymuned ar ei phen ei hun sawl gwaith yr wythnos.*

**Cydadolygiad Bro Morgannwg**


> *“Rwyf wedi cael amser da iawn gyda fy ngofalydd maeth, ac mae hi wedi fy helpu drwy bopeth. Hi yw'r gofalydd maeth gorau y gallwn fod wedi dymuno ei chael.”*
>
> *Person ifanc mewn gofal,*
> *Adolygiad Gwasanaethau Plant Sir y Fflint*

Mae'r ddwy enghraifft hyn yn dangos yr hyn y gall y gwasanaethau cymdeithasol ei wneud - a'r hyn y maent yn ei wneud yn aml iawn - i gefnogi pobl agored i niwed yn y gymuned ac i hyrwyddo eu hannibyniaeth.


Mae profiad y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae ein harolygon o'r pum cydadolygiad diwethaf (gan gynnwys rhai nad ydynt wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn) yn dangos canlyniadau tebyg i'r rhai a gofnodwyd y llynedd yn *Adroddiad y Prif Arolygydd: Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2005-06*.

Dywedodd defnyddwyr gwasanaethau i oedolion...


Mae'r gwasanaethau yr wyf yn eu derbyn o ansawdd da





Roedd y gwasanaethau cymdeithasol o gymorth i mi deimio'n fwy diogel




Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod o gymorth i mi fyw'n fwy annibynnol





Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod o gymorth i mi deimio'n rhan o'm cymuned



Dywedodd y bobl ag anableddau dysgu, pan ofynnwyd iddynt am y cymorth yr oeddynt yn ei gael...





A dywedodd y plant…




Mae ymatebion y gofalwyr hefyd yn debyg i'r llynedd, ac yn gyffredinol mae mwy na 60% yn fodlon â'r cymorth y maent yn ei dderbyn:


Mae fy anghenion fel gofalydd wedi'u hasesu




Rwyf yn cael cymorth gyda fy swyddogaeth cefnogi/gofalu



Mae'r cymorth yr wyf yn ei dderbyn fel gofalydd...




Mae'r agweddau ar y gwasanaeth sy'n derbyn yr ymatebion mwyaf cadarnhaol yn cynnwys bod yn rhan o wneud penderfyniadau, cael gwasanaethau dibynadwy ac o ansawdd uchel, ac yn anad dim, cael eu trin gyda pharch ac urddas. Y defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion sy'n tueddu i fynegi'r safbwyntiau mwyaf cadarnhaol. Mae ymatebion plant yn fwy cymysg, ond yn parhau i fod yn gadarnhaol at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr yn fodlon ar y cyfan, ond mae lleiafrif sylweddol yn llai bodlon.

Yn gyffredinol, mae llai o fodlonrwydd ynglŷn â'r gallu i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i oriau swyddfa ac ynglŷn ag adolygu gwasanaethau.

## Safbwyntiau staff a rhan-ddeiliaid

Mae'r arolygiaeth yn ceisio barn ymarferwyr a rhan-ddeiliaid hefyd, h.y. cynrychiolwyr o sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdodau a adolygwyd.

Mae'r mwyafrif helaeth o ymarferwyr (94%) yn mwynhau eu gwaith ac mae'r rhan fwyaf (70%) ohonynt yn teimlo bod yr awdurdod lleol yn eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gadarnhaol ynglŷn â'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn yn y gwaith. Fodd bynnag, dywedodd chwarter (26%) ohonynt fod problemau recriwtio a dethol staff wedi effeithio arnynt, ac anghytunodd dros hanner (60%) â'r datganiad bod 'gwasanaethau cymdeithasol yn gallu recriwtio digon o staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas yn y maes gwaith yr wyf fi yn gweithio ynddo'.


Cafwyd ymatebion cymysg ynglŷn â'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli a pha mor dda y caiff newidiadau eu gweithredu. Roedd tri chwarter yr ymarferwyr (75%) o'r farn fod ansawdd gwasanaethau cymdeithasol wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf. Roedd y sylwadau ynglŷn ag agweddau unigol ar y gwasanaeth yn gadarnhaol gan fwyaf, ond nid oeddynt mor ffafriol o ran cynnal adolygiadau ar amser. Dywedodd hanner yr ymarferwyr fod rheolwyr gofal y defnyddwyr gwasanaeth yn newid yn aml.

Cafwyd sylwadau ffafriol gan sefydliadau partner a rhan-ddeiliaid (tua thri chwarter ar gyfer nifer o gwestiynau) ar y trefniadau cynllunio a phartneriaeth. Roeddynt o'r farn fod gwasanaethau cymdeithasol yn cael problemau o ran recriwtio digon o staff addas a dyrannu a rheoli adnoddau. Roedd eu safbwyntiau ar agweddau ar y gwasanaeth yn amrywio. Nid oedd eu safbwyntiau ar wneud asesiadau ac adolygiadau ar amser mor ffafriol, a chafwyd pryderon ynglŷn â newid rheolwyr gofal yn aml. Cafwyd safbwyntiau mwy ffafriol ynglŷn ag ystod a darpariaeth y gwasanaethau. Cytunodd dros dri chwarter (77%) ohonynt fod ansawdd gwasanaethau cymdeithasol wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf.

## Adolygiadau a gwerthusiadau

Cynhaliodd yr arolygiaeth adolygiadau o wasanaethau plant yn Sir y Fflint, Sir Fynwy ac Abertawe. Nid arweiniodd adolygiad o wasanaethau plant ar raddfa lai yn Wrecsam at ddyfarniad grid. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau i oedolion yn Wrecsam, a chan weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru, cynhaliwyd cydadolygiadau o wasanaethau ym Mro Morgannwg ac Ynys Môn.

Roedd y dyfarniadau cyffredinol fel a ganlyn:



Mae'r canlyniadau hyn yn parhau â'r duedd o symud o waelod yr ochr chwith (gwaethaf) i frig yr ochr dde (gwell).

Aseswyd bod gwasanaethau Ynys Môn yn dda gan fwyaf, sy'n cyfateb i gyflawniad cynharach Tor-faen, a'u bod mewn sefyllfa dda i gynnal a gwella gwasanaethau. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol, ond mae'r adroddiad yn nodi'n eglur y bydd angen i'r Cyngor weithio'n galed a gwneud newidiadau er mwyn parhau i wella.

Barnwyd bod gwasanaethau Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn dda gan fwyaf, sydd eto yn cynrychioli cynnydd da ers y cydadolygiad cyntaf. Fodd bynnag, o ganlyniad i bryderon difrifol ynglŷn â chynaladwyedd gwasanaethau a'r ffordd yr oedd y materion hyn yn cael eu rheoli, aseswyd nad oedd yr awdurdod mewn sefyllfa gref i gynnal a gwella gwasanaethau.

Aseswyd bod gwasanaethau plant Cyngor Sir Fynwy yn dda gan fwyaf, a bod yr awdurdod mewn sefyllfa gref o ran cynnal a gwella gwasanaethau - canlyniad da arall i awdurdod llai. Aseswyd bod gwasanaethau plant Sir y Fflint a gwasanaethau oedolion Wrecsam yn anghyson, ond bod y ddau awdurdod mewn sefyllfa dda i gynnal a gwella gwasanaethau, sy'n arwydd pellach bod gwasanaethau ar y llwybr i wella.

Mae adolygiadau a gwerthusiadau perfformiad blynyddol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn defnyddio'r un fframwaith meysydd - saith o dan bob un o'r ddau gwestiwn allweddol:

- ***Pa mor dda yw'r gwasanaethau?***
- ***Pa mor dda yw sefyllfa'r awdurdod i gynnal a gwella gwasanaethau?***

Mae'r rhain yn ei gwneud yn bosibl i farnu cryfderau a gwendidau cymharol mewn gwasanaethau.

Mae crynodeb o'r dyfarniadau meysydd o adolygiadau fel a ganlyn:

Dyfarniadau meysydd o Fro Morgannwg, Ynys Môn - Cydadolygiadau
Wrecsam - Adolygiad o Wasanaethau Oedolion
Sir y Fflint, Sir Fynwy, Abertawe - Adolygiad o Wasanaethau Plant

Pa mor dda yw'r gwasanaethau?

| | Gwael | Anghyson | Da gan fwyaf | Rhagorol |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad at wasanaethau | 1 | 1 | 4 | |
| Asesu | 1 | 5 | | |
| Rheoli ac adolygu gofal | 1 | 3 | 2 | |
| Ystod y gwasanaethau a ddarperir | | | 6 | |
| Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir | | 1 | 5 | |
| Trefniadau i amddiffyn pobl agored i newid | 1 | 3 | 2 | |
| Llwyddiant o ran hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol | | 2 | 4 | |

Pa mor dda yw sefyllfa'r awdurdod i gynnal a gwella gwasanaethau?

| | Sefyllfa wael | Sefyllfa ansicr | Sefyllfa dda gan fwyaf | Sefyllfa gref |
|---|---|---|---|---|
| Gweithlu | | 1 | 5 | |
| Rheoli perfformiad | 1 | 3 | 2 | |
| Cynllunio a phartneriaeth | | 2 | 4 | |
| Comisiynu a chontractio | | 5 | 1 | |
| Adnoddau | | 4 | 2 | |
| Arweinyddiaeth a diwylliant | | 3 | 3 | |
| Cefnogaeth wleidyddol a chraffu corfforaethol | | 3 | 3 | |

Mae gwerthusiadau perfformiad yn creu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwella'r awdurdod lleol dan sylw. Mae dadansoddiad o'r rhain, nad ydynt yn cyd-fynd yn union gywir â phenawdau'r meysydd, yn cadarnhau'r angen i wneud ymdrech bellach i asesu a rheoli gofal, rheoli perfformiad a chomisiynu a chontractio.

Mae'r monitro a gynhelir gan arolygwyr mewn gwasanaethau sy'n ddarostyngedig i'r protocol ar gyfer ymdrin â phryder difrifol yn ddull ychwanegol o adolygu. Mae ymdrech ddwys a monitro parhaus wedi cynyddu perfformiad wrth gyflawni prosesau allweddol yn ddibynadwy ac ar amser yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (fel sydd wedi digwydd o'r blaen mewn awdurdodau eraill).

## Dangosyddion perfformiad

Cyflwynwyd cyfres newydd o ddangosyddion ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn sgil fframwaith mesur perfformiad newydd ar gyfer llywodraeth leol - sef y gyfres data craidd. Mae'r gyfres hon yn fwy cynhwysfawr na'r un flaenorol a bydd yn rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad mewn gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant.

Mae'r newid yn golygu nad yw cymharu â blynyddoedd blaenorol mor syml â hynny. Yn ogystal, mae'n arferol bod cyflwyno dangosyddion newydd yn cymryd amser i ddod i drefn, gan fod rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno systemau newydd i gasglu'r data. Mae eu llwyddiant wrth wneud hynny wedi amrywio, yn rhannol yn unol â pha mor barod yw'r systemau technoleg gwybodaeth, ac yn rhannol yn unol ag arfer rheoli presennol o ran monitro perfformiad ar draws pob maes gwasanaeth. Bydd rhaid trin y ffigurau ar gyfer y dangosyddion newydd yn ystod y flwyddyn gyntaf yn ofalus.

Cyhoeddir ffigurau dangosyddion perfformiad ar wahân gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol. Mae'r dangosyddion cychwynnol yn unol â negeseuon cyffredinol yr adroddiad hwn: tystiolaeth gyffredinol o welliant cyson, gyda rhai eithriadau, a gormod o amrywiad o hyd ym mherfformiad awdurdodau lleol unigol.

## Edrych i'r dyfodol

Yn strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru o 2008 i 2018* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2007), nodwyd ffordd ymlaen hyderus ond heriol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan weithio o fewn cyd-destun gwasanaethau cyhoeddus ehangach er mwyn gwella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer dinasyddion Cymru.

Mae awdurdodau lleol wedi dangos mwy o ymrwymiad i wasanaethau cymdeithasol. Maent wedi arddangos gwelliant sylweddol. Maent yn dangos eu parodrwydd i gydweithio â'i gilydd a chyda darparwyr gwasanaeth eraill. Rhaid iddynt ddefnyddio'r ymrwymiad, y cyflawniad a'r parodrwydd hwn i:

- barhau i wella perfformiad;
- ail-lunio gwasanaethau i fodloni anghenion newidiol;
- gwneud y defnydd gorau o allu ac effeithlonrwydd drwy gydweithio'n fwy eang ac yn gryfach.

# PENNOD DAU



## HYRWYDDO GWELLIANT

### MENTRAU PENODOL

Yn sgil Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 gosodwyd y swyddogaeth gyffredinol o annog gwelliant o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru, ar y cyn Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC).

Cyflawnwyd hyn drwy raglenni arolygu a datblygu'r arolygiaeth, a thrwy weithio mewn partneriaeth â swyddogion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac arolygiaethau a chyrff archwilio eraill, drwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella a chyda'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC). Ariennir AGGC gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i sefydlwyd y llynedd dan nawdd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae'r arolygiaeth wedi gweithio'n agos gydag AGGC o'r cychwyn, i gytuno ar feysydd blaenoriaeth a datblygu rhaglenni gwaith.


Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r arolygiaeth wedi arwain rhaglenni a gynlluniwyd i gynyddu gallu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r rhaglen rheoli perfformiad yn ei chweched flwyddyn erbyn hyn. Mae'n ymroddedig i hyrwyddo ymagwedd gydgysylltiedig at faterion technoleg gwybodaeth a chyfrifiadurol, ac yn enwedig y systemau gwybodaeth strategol ar gyfer gwasanaethau plant (System Integredig ar gyfer Plant) ac oedolion (asesiad unedig), a datblygu gwybodaeth a sgiliau rheoli perfformiad mewn awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru. Cyflwynwyd trefniadau cyson a chynhwysfawr ar gyfer rheoli gwybodaeth ar draws yr ystod o wasanaethau ochr yn ochr â'r mentrau hyn, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol gyfrinachol yn cael ei rhannu'n briodol yn ogystal â chael ei diogelu.

Yn 2006-07, dosbarthodd y rhaglen rheoli perfformiad £4.1 miliwn i gynorthwyo awdurdodau lleol i wella eu systemau a £150,000 arall ar gyfer gweithgareddau cefnogol eraill.

Mae'r rhaglen datblygu'r gweithlu yn parhau i gyfrannu at y partneriaethau llwyddiannus, a arweinir gan awdurdodau lleol, rhwng cyflogwyr gofal cymdeithasol a darparwyr hyfforddiant ac addysg. Mae'r partneriaethau'n cydweithio ym mhob ardal awdurdod lleol i ddatblygu a chyflwyno gweithlu a chynllun datblygu ar gyfer y sector cyfan.

Yn 2006-07, cyfrannodd grantiau rhaglen datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol £8.5 miliwn tuag at gyfanswm gwariant rhaglen o £12.1 miliwn, a chyfrannodd awdurdodau lleol y swm ychwanegol:

Gwariant awdurdodau lleol fesul £1 o grant rhaglen datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol 2006-07




Mae effaith y partneriaethau lleol yn amlwg erbyn hyn gyda nifer cynyddol o staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ac yn ennill cymwysterau ar draws pob darparwr gwasanaeth a maes gwasanaeth. Gallwn hefyd weld effaith ehangach y partneriaethau gweithlu wrth iddynt gyfrannu at amgylchedd lle y gall trefniadau cydweithredol a phartneriaeth eraill ddatblygu a ffynnu.

Mae'r arolygiaeth wedi parhau i hyrwyddo datblygu sylfaen ymchwil a gwybodaeth gref ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Trwy inni noddi'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE), mae rhaglen adolygu ymchwil lawn yn parhau ac mae amrywiaeth eang o adnoddau a deunyddiau arfer newydd wedi'u cyhoeddi a'u dosbarthu.

Mae'r arolygiaeth wedi parhau i gydlynu cyfarfodydd rhan-ddeiliaid allweddol mewn ymchwil gofal cymdeithasol. Mae'r rhain wedi cynnwys comisiynwyr, ymchwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygiaethau, awdurdodau lleol, darparwyr annibynnol a sefydliadau gwella arfer.

Drwy weithio ar y cyd, maent yn gallu hyrwyddo ymagwedd fwy cydlynol at gomisiynu a defnyddio ymchwil o amrywiaeth eang o ffynonellau.

Ym mis Ebrill 2006, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithdrefnau cwyno newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae *Gwrando a Dysgu* yn darparu canllaw ar gyfer ymdrin â chwynion a sylwadau mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru.

Eleni, mae adolygiad o weithredu'r panel annibynnol cam tri a sefydlwyd dan y gweithdrefnau hynny wedi nodi sawl maes y mae angen eu gwella. Mae'r arolygiaeth wedi gweithio'n agos â'r is-adran polisi sy'n gyfrifol, swyddogion cwynion awdurdodau lleol, yr Ysgrifenyddiaeth Cwynion Annibynnol ac aelodau o'r panel annibynnol i roi cyngor ar sut i wella'r broses.

Mae'r arolygiaeth wedi bod yn bartner allweddol wrth gyfrannu at ddatblygu papur strategaeth gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru o 2008-2018*. Bydd hwn yn ddylanwad mawr ar ffurfio rhaglen wella'r arolygiaeth yn ystod y blynyddoedd i ddod.

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL I BLANT

Lluniwyd ein gwaith gwella a datblygu yn ystod 2006-07 gan weithredu Deddf Mabwysiadu Plant 2002, Deddf Plant 2004 ac is-ddeddfwriaeth newydd i wella iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Dylanwadwyd arno hefyd gan ganfyddiadau'r arolygiaeth a gafwyd o adolygiadau, gwerthuso perfformiad a systemau monitro eraill. Mae'r arolygiaeth wedi parhau i ganolbwyntio ar wella'r meysydd gwasanaeth craidd sef asesu, cynllunio gofal, adolygu a rheoli perfformiad oherwydd mai'r rhain yw sail darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol.



## Diogelu plant agored i niwed

Mae Deddf Plant 2004 yn gosod cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu holl wasanaethau i blant, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol yn gyffredinol, ac mae'n cyflwyno Byrddau Lleol Diogelu Plant (LSCB) newydd ar gyfer awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Gellir cyflwyno a chynnal gwell canlyniadau i blant dim ond pan fydd pobl a chyrff allweddol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau mwy integredig o amgylch anghenion plant a phobl ifanc. Mae angen arwain a rheoli'r newid hwnnw ar lefel leol a'i gefnogi'n genedlaethol.

Mae'r arolygiaeth wedi parhau i weithio ar draws is-adrannau polisi a chydag amrywiaeth eang o ran-ddeiliaid allanol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau newydd ac i hyrwyddo cydweithio agosach er mwyn sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Sefydlwyd byrddau LSC o 1 Hydref 2006 ymlaen. Yr arolygiaeth sy'n rheoli'r gronfa LSCB, sy'n cynnwys elfen grant a ddefnyddir i hyrwyddo sefydlu'r byrddau. Mae pob awdurdod wedi sefydlu LSCB. Mae un awdurdod, sef Rhondda Cynon Taf, wedi dewis penodi cadeirydd annibynnol, ac mae mannau eraill wedi dangos diddordeb yn y trefniant hwn hefyd. Mae pedwar LSCB yn archwilio'r posibilrwydd o gyfuno adnoddau i ddatblygu LSCB a rennir, ar draws dwy ardal ym mhob achos. Mae sawl LSCB arall yn chwilio am gyfleoedd i rannu is-grwpiau, yn enwedig o ran hyfforddiant.

Mae'r gwaith a wnaed yn ystod trosglwyddo i fyrddau LSC a rhoi Deddf Plant 2004 ar waith wedi canolbwyntio'n gryf ar strwythurau a diffiniadau. Mae Adran 28(2) Deddf Plant

2004 yn gosod dyletswydd ar bobl a chyrff allweddol i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Yn ystod eu blwyddyn gyntaf, mae byrddau LSC wedi canolbwyntio ar bennu eu perthynas â'r trefniadau partneriaeth perthnasol. Mae pob LSCB wedi adrodd bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu strwythurau sy'n egluro'r cydberthynas rhwng yr LSCB, y partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Nod y strwythurau hyn yw hyrwyddo gwell canlyniadau ar gyfer plant a sicrhau bod pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant. Yr hyn sy'n hanfodol i bob LSCB yw eu bod yn parhau i sicrhau mai diogelu plant yw eu blaenoriaeth bennaf.

Mae'r canllawiau'n pwysleisio'r angen i sicrhau bod y partneriaid statudol yn darparu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r rhwymedigaethau a osodwyd yn Neddf Plant 2004. Mae'r maes hwn yn parhau i beri anhawster i sawl LSCB ac yn un lle mae gwaith pellach yn cael ei wneud. Mae'n hanfodol bod y partneriaid statudol yn dod i gytundeb ynglŷn ag ariannu sy'n galluogi'r LSCB i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

## Cynllunio ar gyfer sefydlogrwydd

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol wedi parhau i gynyddu yng Nghymru. Mae'r arolygiaeth wedi bod yn ymwneud ag amrywiaeth eang o waith i fynd i'r afael â hyn. Mae hyn yn cynnwys y grŵp adolygu gweithrediadau gofal plant a darparu cyngor ar ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau a nodwyd yn nogfen strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2007), gweithredu a datblygu'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, a *Chynllunio ar gyfer Sefydlogrwydd*, pecyn adnodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r broses o weithredu Deddf Mabwysiadu Plant 2002.

Mae gweithredu Deddf Mabwysiadu Plant 2002 a'r rheoliadau cysylltiedig yn darparu fframwaith cadarn o ran cynllunio ar gyfer sefydlogrwydd. Mae ffigurau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod nifer y plant a fabwysiadwyd o ofal awdurdod lleol wedi cynyddu rhywfaint. Mae canran y plant sy'n derbyn gofal ac a symudwyd i leoliad arall dair gwaith neu amlach yn ystod y flwyddyn wedi gwella rhywfaint hefyd.

Disgwylir i'r ffigurau hyn wella wrth i awdurdodau ddatblygu a gweithredu strategaethau comisiynu effeithiol mewn gwasanaethau plant, ac wrth i ffurf ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir newid mewn ymateb i'r rheoliadau a'r canllawiau a nodwyd yn *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*.

## Rheoli perfformiad


Mynegwyd yr angen am gael systemau gwybodaeth a rheoli perfformiad effeithiol o ran diogelu plant yn gyson mewn adroddiadau blaenorol. Mae'r rhain yn rhagofynion hanfodol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth diogel ac effeithiol. Gwnaed cynnydd sylweddol iawn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond mae ambell awdurdod yn dal i fethu â darparu unrhyw wybodaeth neu'n dibynnu ar ddata samplo mewn perthynas â rhai meysydd gwasanaeth craidd.

Mae'n rhaid i awdurdodau barhau i roi blaenoriaeth i weithredu'r System Integredig ar gyfer Plant (ICS). Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod hyn yn gweithredu fel sbardun pwysig i wella perfformiad, oherwydd bod gwybodaeth yn dod ar gael yn rhwydd i'r holl staff wrth iddynt reoli eu gwaith. Mae angen diwylliant rheoli perfformiad cryf ar bob lefel o'r sefydliad er mwyn gweithredu hyn yn llwyddiannus.

Pum awdurdod yn unig a oedd yn rhagweld y byddent yn gallu gweithredu'r ICS erbyn 31 Rhagfyr 2006, yn unol â chylchlythyr WHC 21/2005. Mae oedi o ran cyflenwi systemau gwybodaeth a thechnoleg cyfrifiadurol newydd i gefnogi'r broses o weithredu hyn yn rhwystro cynnydd. Mae arwyddion bod posibilrwydd na fydd rhai awdurdodau'n gallu gweithredu'r ICS erbyn diwedd 2007. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd â gwaith ar ran yr arolygiaeth i ganfod pa mor barod yw'r awdurdodau o ran gweithredu'r ICS. Mae'r arolygiaeth wedi parhau i hwyluso gweithdai, cwrdd â chonsortia a chyhoeddi amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi awdurdodau lleol gyda'r gwaith hwn. Yn ystod y cyfnod estynedig hwn o drosglwyddo o hen systemau i rai newydd, bu'n rhaid i awdurdodau benderfynu sut i reoli gwybodaeth. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod ganddynt systemau, boed hwy'n rhai llaw neu electronig, wedi'u sefydlu i ddarparu gwybodaeth gywir a dibynadwy yn seiliedig ar gasglu data 100%.

Mae perfformiad o fewn gwasanaethau plant yng Nghymru yn dal i ddangos gwahaniaethau sylweddol rhwng y gorau a'r gwaethaf, fel y dengys y tabl canlynol. Er y bu gwelliant bychan o ran cau'r bwlch rhyngddynt, mae angen i'r awdurdodau sy'n perfformio waethaf barhau i ganolbwyntio ar leihau lefel yr amrywiad ymhellach ac yn gyflymach ym mhob maes gweithgaredd. Mae'n rhaid i bob awdurdod barhau i ymdrechu i gyflawni safonau uchel o berfformiad.

Perfformiad gwasanaethau cymdeithasol i blant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/07




| Allwedd | |
|---|---|
| 1 | Canran y lleoliadau cyntaf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n dechrau gyda chynllun gofal wedi'i sefydlu. |
| 2 | O ran y plant hynny sy'n derbyn gofal y dylid bod wedi cynnal ail adolygiad arnynt (sy'n ofynnol ar ôl pedwar mis) yn ystod y flwyddyn, y ganran ohonynt sydd â chynllun ar gyfer sefydlogrwydd ar y dyddiad gofynnol. |
| 3 | Canran y plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu amlach yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, lle nad oedd hynny oherwydd trefniadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth. |
| 4 | Sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod drwy gyfeirio at ganran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a gafodd dri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn. |

Mae'r pwysau am newid a gwella'n parhau i fod yn uchel. Mae llwyddiant parhaus yn dibynnu ar ymrwymiad corfforaethol, arweinyddiaeth gref, adnoddau digonol, rheolaeth effeithiol a safonau uchel o ran arfer proffesiynol, a phartneriaeth rhwng pawb sy'n gysylltiedig. Mae'n rhaid i awdurdodau barhau i ymdrechu i gyflawni lefelau uchel o berfformiad. Mae angen hefyd iddynt gael systemau effeithiol i'w rhybuddio'n gynnar o broblemau posibl er mwyn eu galluogi i gymryd y camau unioni angenrheidiol, gan gynnwys ceisio cefnogaeth allanol, i fynd i'r afael â'r rhain yn gynnar. Heb hyn, mae perygl y bydd y sefyllfa yn dirywio ymhellach a chreu problemau cynyddol, ac fe allai hyn, os na chymerir camau i'w atal, arwain at bryderon difrifol. Mae'r arolygiaeth yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i gynorthwyo awdurdodau wrth fynd i'r afael â hyn.

Eleni bydd cyfres data craidd newydd y gwasanaethau cymdeithasol, sydd o fewn y fframwaith mesur perfformiad llywodraeth leol, am y tro cyntaf yn dechrau galluogi gwerthuso perfformiad yn fwy effeithiol o lawer ar lefelau lleol a chenedlaethol. Mae ein profiad yn dangos y bydd hyn yn sbardun pwysig i wella perfformiad. Mae'n hanfodol bod awdurdodau'n defnyddio'r gyfres data craidd i reoli a gwella perfformiad, gan roi blaenoriaeth i feysydd allweddol ar gyfer rheoli gwasanaethau plant.

## Gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn arwain gwaith gydag arolygiaethau perthnasol eraill ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheiny ar gyfer addysg, iechyd, prawf, yr heddlu, a Swyddfa Archwilio Cymru o ran y darpariaethau a nodwyd yn Neddf Plant 2004. Bydd hyn yn ychwanegu at drefniadau presennol ar gyfer gweithio ar y cyd ac yn datblygu trefniadau agosach ar gyfer arolygu gwasanaethau plant. Mae hon yn rhaglen waith bwysig gyda'r nod o ddarparu trosolwg eglur o wasanaethau i blant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) yn adnodd newydd pwysig ar gyfer awdurdodau lleol i wella gwasanaethau ac arfer. Rydym wedi annog gweithio agos rhwng y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE), yr AGGC ac Ymchwil mewn Ymarfer, i hyrwyddo rheoli gwybodaeth a throsglwyddo a chymhwyso gwybodaeth er mwyn cyflawni arfer gorau, a thrwy hynny gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant a theuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau.

Mae'r arolygiaeth wedi parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer datblygu ac arbrofi'r fframwaith asesu cyffredin ac rydym wedi parhau i gefnogi nifer o rwydweithiau arfer ar gyfer gwasanaethau plant. Rydym hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) i sicrhau bod y rhain yn dod yn hunangynhaliol.

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL I OEDOLION

Mae amddiffyn pobl agored i niwed a hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiad cymdeithasol wedi aros yn nodau allweddol parhaus yn ein gwaith datblygu, trwy well asesu, cynllunio yn seiliedig ar ganlyniadau, comisiynu gwasanaethau, teleofal a thrwy gefnogi datblygiadau o ran rheoli pryderon sy'n dwysáu a chartrefi gofal yn cau. Rydym hefyd wedi gweithio i gefnogi'r broses o weithredu deddfwriaeth newydd ar alluedd meddyliol.



Mae gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn parhau i ddatblygu o fewn cyd-destun ehangach ymgysylltiad cynyddol dinasyddion, y disgwyl am safonau uwch o ran gwasanaeth cwsmeriaid a mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cyd-destun hwn yn atgyfnerthu'r berthynas sydd wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhwng defnyddwyr gwasanaethau oedolion a'u gofalwyr ar un llaw, a chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau ar y llaw arall. Mae papur polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* yn datblygu'r tueddiadau hyn ymhellach ac yn pwysleisio'r angen am wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ataliol, sy'n cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned.

## Hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiad cymdeithasol

Trefniadau cadarn o ran asesu, cynllunio gofal a rheoli gofal sydd wrth wraidd bodloni amcanion *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*. Rydym yn gwybod bod angen i awdurdodau barhau i ganolbwyntio eu hymdrechion ar gyflawni'r rhain. Mae'r papur wedi cydnabod yr angen am adolygu'r broses asesu unedig i sicrhau ei bod yn dal i ganolbwyntio ar yr unigolyn a'i bod yn addas i'w diben. Bydd angen adolygu'r canllaw gwasanaeth *Mynediad Teg at Wasanaethau Gofal* hefyd er mwyn gwneud hyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld mwy o awdurdodau'n codi'r trothwy cymhwysedd am wasanaethau wrth iddynt geisio cydbwyso'r galw am wasanaethau â'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn golygu nad yw'r bobl a allai elwa o wasanaethau lefel isel neu ymyrraeth gynnar bob amser yn derbyn hynny. Bydd angen i adolygiad o *Mynediad Teg at Wasanaethau Gofal* ystyried materion sy'n ymwneud ag eglurder, tegwch a chyfranoldeb i gael gwybod pa un a yw defnydd awdurdodau lleol o gymhwysedd yn targedu adnoddau'n gywir at bob lefel gwasanaeth ac angen.

Elfen allweddol o gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain yw darparu cymhorthion byw bob dydd ac addasiadau yn ddigon buan. Rydym wedi rhoi cryn dipyn o gefnogaeth i bartneriaethau lleol sy'n cynnwys llywodraeth leol a'r GIG mewn integreiddio gwasanaethau cyfarpar cymunedol. Mae angen i bartneriaethau lleol wneud y defnydd gorau posibl o'r buddsoddiad cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella seilwaith y gwasanaeth hwn a sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i ymdopi â gofynion cynyddol yn y dyfodol. Mae gwasanaethau cyfarpar cymunedol yn hanfodol i hyrwyddo annibyniaeth pobl a galluogi gwasanaethau eraill i weithredu'n ddiogel. Rydym wedi darparu nifer o weithdai, cynhadledd a deunyddiau ysgrifenedig i gefnogi'r prosiect hwn.

Mae cynnal pobl yn eu cartrefi eu hunain hefyd yn dibynnu ar fecanweithiau cefnogi effeithiol a defnyddio adnoddau a rennir ar draws ffiniau sefydliadol. Mae diddordeb cynyddol mewn defnyddio cyllidebau cyfun ac rydym wedi hwyluso a chefnogi nifer o seminarau ar gyfer amrywiaeth o gyfranogwyr ar ddefnyddio hyblygrwydd y Ddeddf Iechyd, sy'n caniatáu i sefydliadau gronni adnoddau a datblygu gwasanaethau integredig, er mwyn datblygu a gwella dealltwriaeth o'r cyfleoedd a gynigir trwy'r ymagwedd hon. Rydym hefyd wedi comisiynu datblygiad templedi i hwyluso cydweithio a chytundebau ariannol.

Mae gwella'r gefnogaeth ar gyfer grwpiau defnyddwyr gwasanaeth agored i niwed yn dal i fod wrth wraidd ein gwaith ar wasanaethau i bobl â nam ar y golwg neu'r synhwyrau. Mae grwpiau amlasiantaeth a grwpiau sector wedi cyfarfod i ddatblygu gwell dulliau o feincnodi gwasanaeth a chamau sy'n deillio o ganlyniadau ar gyfer y gwasanaethau hyn.

Mae'r adeg rhyddhau o'r ysbyty yn rhoi tystiolaeth o'r berthynas waith rhwng iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae gan hyn effaith fawr ar barhau annibyniaeth pobl hŷn. Mae cyfanswm nifer yr achosion o oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond cynyddodd mewn rhai ardaloedd y llynedd. Mae'r arolygiaeth yn cymryd rhan mewn adolygiad a arweinir gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r ffactorau cymhleth sy'n effeithio ar hyn, ac mae'n parhau i fonitro'r agweddau gofal cymdeithasol ar hyn mewn awdurdodau unigol. Mae eisoes yn glir bod yn rhaid i atebion i'r broblem edrych y tu hwnt i'r adeg rhyddhau o'r ysbyty, ac ystyried llwybrau gofal cyfan sy'n dechrau cyn derbyn i'r ysbyty ac sy'n mynd y tu hwnt i ryddhau o'r ysbyty i'r tymor hwy. Gofal cymdeithasol ac iechyd pobl hŷn yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus.

## Amddiffyn pobl agored i niwed

Mae'r arolygiaeth yn dal i ganolbwyntio ar amddiffyn pobl agored i niwed. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Uned Ddata Llywodraeth Leol ac awdurdodau lleol i wella dulliau o gasglu data, dadansoddi'r wybodaeth a, thrwy hynny, gwella'r ddealltwriaeth o dueddiadau lleol a chenedlaethol. Mae awdurdodau'n dweud bod gofynion cynyddol yn y maes gwaith â blaenoriaeth hwn. Mae cynnydd mewn atgyfeiriadau'n arwain yn anochel at dreulio cryn dipyn o amser yn ymchwilio i faterion perthnasol a gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i gynllunio a gwneud trefniadau eraill neu, os yw'r sefyllfa'n amhendant, i geisio sicrhau eu diogelwch trwy fonitro ychwanegol.

Mae effaith gysylltiedig hefyd ar gymhwysedd ar gyfer derbyn gwasanaeth. Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn tueddu i berthyn i gategorïau hawdd eu diffinio yn y gorffennol - er enghraifft, anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl, ond bellach mae awdurdodau'n dweud bod mwy o bobl yn gymwys am wasanaeth oherwydd bod perygl i'w hannibyniaeth neu berygl camdriniaeth neu gamfanteisio arnynt.

Bydd y ddeddfwriaeth newydd Diogelu Grwpiau Agored i Niwed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at amddiffyn pobl agored i niwed, ond bydd angen mwy o gydweithio agosach rhwng comisiynwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau wrth i staff mewn meysydd gofal cymdeithasol na reoleiddiwyd yn flaenorol, fel gwasanaethau dydd, ddod yn destun archwiliadau.

Mae Grŵp Cynghori Amddiffyn Oedolion Cymru wedi parhau i hyrwyddo gwell arfer ac fe'i cryfhawyd ymhellach gan aelodaeth ychwanegol cynrychiolwyr o'r gwasanaethau iechyd a chyfiawnder troseddol, yn unol ag argymhellion y gwerthusiad o strwythurau amddiffyn oedolion a gwblhawyd ym mis Mawrth 2006. Mae'r grŵp wedi gweithio ar ganllawiau newydd i sicrhau arfer gorau wrth helpu pobl agored i niwed sy'n byw gartref i reoli eu harian, fel atodiad pellach i *Mewn Dwylo Diogel - Rhoi Gweithdrefnau Diogelu Oedolion Ar Waith yng Nghymru* (Gorffennaf 2000) sy'n rhoi ystyriaeth lawn i ofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

## Swyddfeydd Rhanbarthol AGGCC

### Swyddfa Ranbarthol Gogledd-orllewin Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Ffordd Dinerth
Llandrillo-yn-Rhos
Bae Colwyn LL28 4UL
**Ffôn:** 01492 542580 **Ffacs:** 01492 542569
**E-bost:** cssiw.nw@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru

Tŷ Broncoed
Parc Busnes Broncoed
Ffordd Wrexham
Yr Wyddgrug CH7 1HP
**Ffôn:** 01352 707900 **Ffacs:** 01352 707905
**E-bost:** cssiw.ne@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Canolbarth Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod LD1 5HA
**Ffôn:** 01597 829319 **Ffacs:** 01597 824375
**E-bost:** cssiw.mid@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol De-ddwyrain Cymru

6ed Llawr
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pwl
Tor-faen NP4 6YB
**Ffôn:** 01495 761200 **Ffacs:** 01495 761239
**E-bost:** cssiw.se@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Caerdydd

1 Alexandra Gate
Ffordd Pengam
Tremorfa
Caerdydd CF24 2SA
**Ffôn:** 029 2047 8600 **Ffacs:** 029 2047 8614
**E-bost:** cssiw.cdf@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Y Fro a'r Cymoedd

4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw CF15 7QZ
**Ffôn:** 01443 848527/28/29
**Ffacs:** 01443 848526
**E-bost:** cssiw.vv@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol De-orllewin Cymru

Uned C, Cam 3,
Pentref Busnes Tawe
Ffordd Phoenix
Parc Menter Abertawe
Abertawe SA7 9LA
**Ffôn:** 01792 310420 **Ffacs:** 01792 313038
**E-bost:** cssiw.sw@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Ranbarthol Gorllewin Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin SA31 3BT
**Ffôn:** 01267 223402 **Ffacs:** 01267 242924
**E-bost:** cssiw.ww@wales.gsi.gov.uk

## Swyddfeydd Lleol AGGCC

### Swyddfa Leol Gogledd-orllewin Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd LL55 1EP
**Ffôn:** 01286 662300 **Ffacs:** 01286 662301
**E-bost:** cssiw.nw@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Leol Canolbarth Cymru

Adeiladau'r Goron
Stryd Northgate
Aberystwyth SY23 2JS
**Ffôn:** 01970 653860 **Ffacs:** 01970 653869
**E-bost:** cssiw.mid@wales.gsi.gov.uk

### Swyddfa Leol Gorllewin Cymru

Llawr 1af
Tŷ Winchway
Lôn Winch
Hwlffordd SA61 1RS
**Ffôn** 01437 761300 **Ffacs:** 01437 768388
**E-bost:** cssiw.ww@wales.gsi.gov.uk

## Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC

**AGGCC**
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
**Ffôn:** 01443 848450 **Ffacs:** 029 2082 3417
**E-bost:** aggcc@cymru.gsi.gov.uk

**AGGCC**
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw CF15 7QZ
**Ffôn:** 01443 848450 **Ffacs:** 01443 848472
**E-bost:** aggcc@cymru.gsi.gov.uk

## Copïau ychwanegol

Mae copïau ychwanegol o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu fformatau eraill pe byddai angen. Mae fersiynau sain o'r adroddiad a data sy'n ymwneud â'r graffiau a'r siartiau hefyd ar gael.

Cysylltwch ag:

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw
CF15 7QZ

Ffôn: 01443 848450
Ffacs: 01443 848472
E-bost: aggcc@cymru.gsi.gov.uk

## Cyfeiriad gwefan

www.aggcc.org.uk